

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

13 Ionawr 2022

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr ynghylch adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 'Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol'.

Er na fydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad gan fod ei argymhellion yn canolbwyntio ar awdurdodau lleol, rwyf wedi ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ddiolch iddo am yr adroddiad ac i ddweud y byddwn, wrth gwrs, yn parhau i ystyried ei ganfyddiadau wrth i ni gyflawni'r [Cynllun Gweithredu Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd](#), a lansiwyd ym mis Tachwedd y llynedd:

Bydd pob un o'r meysydd y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gwahodd Llywodraeth Cymru i'w hystyried yn rhan o'n gwaith i weithredu'r cynllun yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, ac fel y mae adroddiad yr Ombwdsmon yn cydnabod, bod yr ymchwiliad wedi'i gynnal ar adeg o newid sylweddol mewn gwasanaethau digartrefedd. Mae'r dull 'neb yn cael eu gadael allan' cynhwysol yr ydym wedi'i gymryd ers dechrau'r pandemig, ac sy'n parhau heddiw, wedi newid y dirwedd o ran sut mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu, ac wedi cyflymu'r trawsnewid sydd ei angen i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae ein hymrwymiad i'r gwaith hwn yn glir yn y Rhaglen Lywodraethu, sy'n cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu Digartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Mae cymryd camau i roi terfyn ar ddigartrefedd hefyd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, fel y gŵyr y Pwyllgor. Fel y nodais yn fy ymateb i'r Ombwdsmon, ac fel y nodwch yn eich llythyr, mae'r adroddiad felly'n ddefnyddiol iawn o ran darparu tystiolaeth a mewnwediad gwerthfawr i lywio'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i drawsnewid gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys diwygio deddfwriaethol.

### **Gweithio mewn partneriaeth**

Mae'r Cynllun Gweithredu Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd yn nodi'r camau lefel uchel y byddwn yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau diwygiadau sylfaenol. Mae rhan allweddol o'r camau hyn i'w cymryd gan awdurdodau lleol ac mewn partneriaeth â hwy. Gyda'n gilydd byddwn yn gweithio i ail-lunio gwasanaethau yn seiliedig ar ddull ailgartrefu cyflym, gan symud ffocws ein polisi, ein harferion a'n hadnoddau tuag at gartrefi sefydlog hirdymor yn hytrach na llety dros dro Rhan bwysig o gefnogi'r gwaith hwn yw'r Canllawiau ar

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd gennym ar ddiwedd 2021. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun cadarn i gefnogi pob person sy'n ddigartref, ac i fwrw ymlaen â'n nod o wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac na fydd yn cael ei ailadrodd.

At hynny, ar ddechrau'r pandemig sefydlwyd tîm o Reolwyr Cydberthynas i weithio'n agos gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru gyda'r nod o gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chefnogi a gwella'r broses o roi polisi a deddfwriaeth atal digartrefedd ar waith. Mae hyn wedi bod yn allweddol o ran cynnal deialog agored a gonest gydag awdurdodau lleol ynghylch y materion y maent wedi'u hwynebu drwy gydol y pandemig. Fel rhan o'r agenda drawsnewid, rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i archwilio sut y gallwn gryfhau ymhellach y cymorth rydym yn ei gynnig i awdurdodau lleol a'n partneriaid cyflawni ehangach.

### **Diwygio deddfwriaethol**

Rwyf wedi bod yn glir iawn na fyddwn yn dychwelyd i'r model cyflawni a oedd ar waith cyn y pandemig, ac rwy'n cydnabod y bydd angen cyfnod trosiannol cyn y gallwn ymgymryd â diwygio deddfwriaethol ar raddfa ehangach. O'r herwydd, mae fy swyddogion yn ystyried y mecanweithiau deddfwriaethol a pholisi tymor byr sydd eu hangen i barhau â'n dull cynhwysol 'neb yn cael eu gadael allan' ar ôl y pandemig, gan gynnwys unrhyw ganllawiau neu eglurhad ychwanegol i ategu'r Cod Canllawiau presennol. Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyrdd yn ddiweddarach eleni sy'n nodi'r mecanweithiau polisi a deddfwriaethol tymor hwy sydd eu hangen i gefnogi'r newid hwn. Bydd y canfyddiadau yn adroddiad yr Ombwdsmon yn arbennig o ddefnyddiol o ran helpu i lunio a llywio agweddau ar y cynigion hyn.

### **Cyllid**

Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ni drawsnewid gwasanaethau digartrefedd a dechrau mabwysiadu dull gwirioneddol gynhwysol o sicrhau nad oes neb yn cael ei adael heb gartref. I gefnogi hyn, roeddem wedi gallu cynnal yr un lefel o gyllid ag yn 2021-22 ar gyfer y Grant Cymorth Tai yng Nghyllideb Ddrafft ddiweddaraf 2022-23, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr. Yn 2021-22 cafodd Grant Cymorth Tai gynnydd sylweddol o £40m, dros 30%, gan godi cyfanswm y cyllid i £166.763m, i gydnabod pwysigrwydd cymorth tai fel rhan o'r agenda atal.

Roeddwn hefyd yn falch fy mod wedi gallu rhoi cyllid dangosol i awdurdodau lleol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt o'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod i gefnogi eu gwaith cynllunio. Bydd y cynnydd parhaus hwn yn helpu i gyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys £15m ychwanegol yn 2022-23 yn y BEL Digartrefedd, a £5m arall i'r BEL hwn ym mhob un o'r 2 flynedd dilynol (felly cynnydd o £25m dros y cyfnod o 3 blynedd). Mae'r cyllid hwn yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi'r rhai sydd angen llefydd dros dro yn ystod y cyfnod anodd hwn a'n huchelgeisiau tymor hwy i ddiwygio digartrefedd yn sylfaenol a symud at ddull ailgartrefu cyflym.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor eu diddordeb parhaus yn y maes hwn ac edrychaf ymlaen at gydweithio ar hyn yn y dyfodol.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change